


Cyfeillion Murluniau Brenda Chamberlain ar Enlli
The Friends of the Brenda Chamberlain Bardsey Murals

**Cylchlythyr IV  Rhagfyr 2013**

  

Mae ein prosiect yn dod yn ei flaen.  Ym mis Medi, treuliodd Jane Foley a'i thîm - Inez Litasova a Julia Vlcek - ddeg diwrnod yn atgyfnerthu a sefydlogi wyneb y muriau a chael gwared â'r hen bapur tenau a osodwyd dros dro ddeg mlynedd ar hugain yn ôl - tasg anferthol.  Yna bu'n rhaid iddyn nhw ymroi i'r gwaith difyr o atgyfnerthu'r manylion coll.

 

Y mae'r *Ceffyl o'r Ochr* - y murlun cyntaf i chi ei weld wrth ddringo'r grisiau - bellach yn ddelwedd fwy trawiadol o lawer.  Dros y dudalen fe welwch fod *Y Ceffyl o'r Cefn* hefyd bellach yn fwy cyf-lawn a bod *Ffigyrau mewn Cwch*, wedi ei ailddiffinio, yn llawnach llun nag yr oedd flwyddyn yn ôl.









Bydd angen amynedd ar *Y Ferch ar y Traeth*. Dydi'r wal hon ddim wedi sychu'n iawn eto a byddai'n wastraff gweithio arni fel mae hi ar hyn o bryd. Tamprwydd yw'r gelyn.

Roeddem wedi gobeithio dod o hyd i'r astudiaeth ar gyfer *Y Colomennod* o dan y paent ar y wal yn y gegin fyw. Yn anffodus, ni ddaeth unrhyw ddelwedd i'r golwg er bod ychydig o bigment wedi ei ddarganfod yno. Efallai ein bod yn gofyn gormod - ond roedd rhaid rhoi cynnig arni.

Yng Nghylchlythyr III, soniwyd fod y pridd oedd wedi hel ar y llwybr yn y cefn wedi ei glirio, a bod 2 gwter wedi dod i'r golwg a hefyd y llechi gwreiddiol. Cafwyd hefyd y crafwr sgidiau metel wrth y drws. Mae hyn yn dangos pa mor drwchus oedd yr haen o waddod dros y llwybr.





Ar ddiwedd ei hadroddiad manwl 25 tudalen, mae Jane yn awgrymu y dylid newid y paent olew a finyl am baent clai er mwyn galluogi'r muriau i anadlu. Roedd hefyd yn awyddus i dynnu'r hen rendr rywbryd yn y dyfodol, gan osod slyri calch cynaliadwy yn ei le. Mae ein profiad yn Nhŷ Capel yn dangos nad gwaith hawdd yw gwneud hyn. Awgrym arall oedd cael tenant yn y tŷ dros y gaeaf, fel bod y stôf goed ynghynn trwy'r tywydd oer ac yn cadw'r tamprwydd draw.

Mae mwy o waith i'w wneud, ond gobeithio eich bod yn fodlon ar y cynnydd hyd yn hyn. Os ydi eich pentref, capel neu eglwys, ffrindiau, grŵp neu gymdeithas yn awyddus i gynnal cyfarfod gyda sgwrs am *Enlli, Brenda Chamberlain a Murluniau Carreg Fawr*, gadewch i ni wybod.

Ceridwen Lloyd-Morgan, Peter Lockyer, Peter Lord, Luned Meredith, Jill Piercy.

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

ASW contemporary art society for wales
cymdeithas gelfyddyd gyfoes cymru

peter.lockyer81@tiscali.co.uk